AWDURDOD TÂN CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

MID AND WEST WALES FIRE AUTHORITY

SYLWER: MAE'R COFNODION YMA'N AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR SAFONAU YN EI GYFARFOD NESAF

COFNODION
CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU

Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
16 MEHEFIN 2014

MINUTES
OF THE STANDARDS COMMITTEE MEETING

Held at Fire Service Headquarters, Lime Grove Avenue,
Carmarthen
16 JUNE 2014

14:00 – 15:15

100% PRESENOLDEB / ATTENDANCE

Presennol yn y Cyfarfod / Present at Meeting:

CADEIRYDD / CHAIR:	Mr H Jones
DIRPRWY GADEIRYDD / DEPUTY CHAIR:	Ms G Storr Mr R Jenkins, Mr M Jehu
AELODAU / MEMBERS:	Cyng. / Cllr L Frayling, Cyng. / Cllr R Llewellyn, Cyng. / Cllr J Curtice
YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES	Dim ymddiheuriadau

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Doedd dim angen unrhyw ymddiheuriadau gan fod y cynrychiolwyr i gyd yn bresennol.

2 DATGANIAD GAN AELODAU O UNRHYW FUDDIANNAU PERSONOL NEU SY'N RHAGFARNU

Fe wnaeth yr holl Aelodau Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol ddatgan fod ganddynt fuddiant personol mewn materion yn ymwneud â, neu sy'n debygol o effeithio ar eu Hawdurdod Cyfansoddol nhw.

3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD / MATERION PERSONOL

Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro fod y Cynghorydd R Llewellyn wedi dod i ddiwedd ei gyfnod fel Cadeirydd yr Awdurdod Tân. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cynghorydd Gillian Thomas wedi cael ei hethol yn Gadeirydd newydd ar yr Awdurdod Tân ar gyfer y flwyddyn gyngor 2014/15, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fehefin 2014. Cafodd y Cynghorydd W Evans ei ethol yn Ddirprwy Gadeirydd.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor am y newidiadau a ddigwyddodd yn ddiweddar mewn perthynas â'r Prif Swyddog Tân, a dywedodd fod Mr Richard Smith wedi ymddeol ac yn dilyn proses gyfweld fe wnaeth yr Awdurdod Tân benodi Mr Chris Davies yn Brif Swyddog Tân newydd, gydag effaith o'r 6ed o Fai 2014.

Awgrymodd y Clerc / Swyddog Monitro fod y Prif Swyddog Tân Chris Davies yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau er mwyn cwrdd ag Aelodau'r Pwyllgor.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau, yn anffodus, bod Ms Jacqui Maunder yn dal i fod ar absenoldeb salwch. Roedd y Cadeirydd yn dymuno anfon dymuniadau gorau'r Pwyllgor i Ms Maunder.

4 I DDERBYN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 2IL O RAGFYR 2013

Sylwodd y Cadeirydd ar gamgymeriad gramadegol ar Dudalen 5, Eitem 9, yn y trydydd Paragraff, a ddylai ddarllen:-

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor, a roddodd ystyriaeth i'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol drafft, a oedd yn ceisio darparu cydraddoldeb o ran taliadau Awdurdodau Tân gyda rhai Awdurdodau Cyfansoddol. Derbyniwyd a chymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2il o Ragfyr 2014 yn gofnod cywir.

Dywedodd y Cynghorydd J Curtice wrth y Pwyllgor nad oedd ei hymddiheuriadau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion ac felly cafwyd cais ganddi i ddiwygio'r

cofnodion i ychwanegu'r Cynghorydd Curtice at y rhestr o ymddiheuriadau.

Derbyniwyd a chymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2il o Ragfyr 2013 yn gofnod cywir.

I YSTYRIED MATERION YN DEILLIO O'R COFNODION

Tudalen 1, Eitem 4, Materion yn deillio o'r cofnodion – 2il o Ragfyr 2014 (Cynhadledd Safonau Flynyddol):

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau na fyddai yna Gynhadledd Safonau Flynyddol yn 2014/15, oherwydd saib cyn newid Ombwdsman, ond rhagwelwyd y byddai Cynhadledd yn cael ei chynnal y flwyddyn wedyn.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n bwysig bod Swyddog Monitro'r Awdurdod yn parhau i gwrdd yn gyfnodol gyda Chyd-swyddogion Monitro, er mwyn cynnal cysondeb o safbwynt Cenedlaethol a hefyd i ennyn arferion gorau o ffynonellau eraill, megis awdurdodau lleol. Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor ei fod wedi mynychu'r fath gyfarfodydd ar ran Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a dywedodd hefyd fod cyfarfod wedi'i drefnu yn y dyfodol agos, lle byddai syniadau am arferion gorau'n cael eu cyfnewid, a hefyd byddai gwybodaeth yn cael ei geisio ar swydd yr Ombwdsman newydd, ac yna byddai'n adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

Tudalen 2, eitem 5 Protocol Hunanreoli

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod y Cadeirydd wedi cyflwyno'r Protocol Hunanreoli i'r Awdurdod Tân ar y 9fed o Ragfyr 2013, lle cafodd ei gymeradwyo a dywedwyd wrth yr Aelodau fod y protocol wedi cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod.

Tudalen 3, eitem 6 Yswiriant Indemniadau

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod Yswiriant Indemniadau wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ar y 9fed o Ragfyr 2013, lle cafodd ei gymeradwyo a'i gynnwys yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod.

Tudalen 4, eitem 7 Polisi Chwythu'r Chwiban

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod y Polisi Chwythu'r Chwiban wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ar y 9fed o Ragfyr 2013, lle cafodd ei gymeradwyo a'i gynnwys yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod.

Tudalen 5, eitem 9 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol– Adroddiad Blynyddol Drafft 14/15

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau ei fod wedi ceisio eglurhad oddi wrth Mr Frank Cuthbert, Llywodraeth Cymru, ynglŷn â pha lwfansiau y gellid eu hawlio, yn anffodus, nid oedd yn medru rhoi ateb clir bryd hynny. Fodd bynnag,

dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro y byddai'n gwneud mwy o ymholiadau ac roedd yn gobeithio derbyn llythyr ffurfiol yn amlinellu'r ymateb, a byddai'n adrodd yn ôl i'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

5 I DDERBYN RHIFYNNAU 1 A 2 O'R COFLYFR CÔD YMDDYGIAD

Rhoddodd y Clerc / Swyddog Monitro drosolwg i'r Pwyllgor o Atodiad 1 – Rhifyn 1 o'r Coflyfr Côd Ymddygiad, Tachwedd 2013 ac Atodiad 2 - Rhifyn 2 o'r Coflyfr Côd Ymddygiad, Mai 2014.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro fod Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) yn paratoi'r 'Coflyfr Côd Ymddygiad' yn chwarterol. Roedd 'Coflyfr yr Ombwdsman' yn cynnwys ymchwiliadau i gwynion am gamweinyddu a methiant gwasanaethau, a oedd wedi profi i fod er lles ac o werth i lawer o ddarllenwyr. Dyluniwyd ef i dynnu sylw at ganfyddiadau ymchwiliadau ac atebion cyflym, fel y gallai darparwyr gwasanaethau eraill ddysgu oddi wrthynt a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Atodiad 1 - tudalen 11 Gwrthrychedd a phriodoldeb - Cyngor Tref Gorseinon, Ebrill 2013. Yn y fan hon, fe wnaeth y Cynghorydd J Curtice ddatgan buddiant personol, fel Aelod o Gyngor Castell-nedd a Phort Talbot a chynrychiolaeth o Gyngor Tref Gorseinon, oherwydd y soniwyd amdanynt yn y Coflyfr. Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro fod hwn yn enghraifft lle'r oedd Aelod o Gyngor Tref Gorseinon wedi methu cadw at y Côd Ymddygiad, a darganfuwyd ei fod wedi torri'r Côd. Yn yr un modd, canfuwyd fod y Côd Ymddygiad wedi cael ei dorri gan Gyngor Sir Fynwy ym mis Mawrth 2013, mewn perthynas â hybu cydraddoldeb a pharch.

Cyfeiriodd y Clerc / Swyddog Monitro at achosion lleol neu berthnasol eraill a amlinellwyd yn Atodiad 1.

Holodd y Cadeirydd sut y gellir caffael gwybodaeth bellach os oedd unrhyw un o'r Aelodau'n dymuno gwneud hynny. Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro y byddai'n gwneud ymholiadau gyda Swyddfa'r Ombwdsman yn uniongyrchol.

Tynnodd y Clerc / Swyddog Monitro sylw'r Aelodau at Atodiad 2, tudalen 6 – Dinas a Sir Abertawe – Hybu cydraddoldeb a pharch, Tachwedd 2013, a dywedodd wrth yr Aelodau fod y mater hwn yn ymwneud ag Aelod o'r Awdurdod Tân. Fe wnaeth y Clerc / Swyddog Monitro esbonio'r sefyllfa i'r Aelodau, a dywedodd bod Dinas a Sir Abertawe wedi ymdrin â'r achos, oherwydd bod yr Aelod wedi cael ei diswyddo o'r Awdurdod Tân yn fuan wedi iddo gael ei benodi. Yn dilyn ymchwiliad, penderfynodd yr Ombwdsman, er na wnaeth y dystiolaeth ddifeio'r Cynghorydd yn llwyr, dangoswyd nad oedd yr Aelod yn ymddwyn mewn rhinwedd swyddogol ac nad oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn ddigon terfynol i ddangos fod yr Aelod wedi dwyn gwarth ar y Swyddfa na'r Awdurdod. O ganlyniad, penderfynodd yr Ombwdsman nad oedd angen unrhyw weithredu pellach.

Cyfeiriodd y Clerc / Swyddog Monitro at achosion lleol neu berthnasol eraill a amlinellwyd yn Atodiad 2.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi

6 I DDERBYN RHIFYNNAU 15 AC 16 O GOFLYFR YR OMBWDSMAN

Rhoddodd y Clerc / Swyddog Monitro drosolwg i'r Pwyllgor o Rifynnau 15 a 16 o Goflyfr yr Ombwdsman, a oedd yn amgaeëdig gyda'r adroddiad fel Atodiadau 1 a 2 er gwybodaeth i'r Aelodau, ac a oedd yn traethu achosion nodedig o gamweinyddu y mae Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymdrin â nhw. Nododd y Pwyllgor fod y coflyfr yn canolbwyntio'n bennaf ar achosion o gamweinyddu o fewn yr Awdurdod Iechyd a'r Awdurdodau Unedol.

Tynnodd y Clerc / Swyddog Monitro sylw at yr achosion yn Atodiad 1 a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi

7 Y DIWEDDARAF AR FATERION YN YMWNEUD Â'R OMBWDSMAN A'R CÔD YMDDYGIAD

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro y gobeithiwyd y byddai'r Ombwdsman newydd yn gweithio'n agos gyda Phwyllgorau Safonau ac y byddai'n ailgyflwyno'r Gynhadledd Flynyddol y flwyddyn nesaf, o bosib.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau fod yna achos posib o 'dorri'r Côd Ymddygiad', a allai gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau i wneud penderfyniad yn ei gylch dros y misoedd nesaf.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro fod yr achos wedi cael ei gyflwyno i'r Ombwdsman, fodd bynnag, nid oedd wedi dod i benderfyniad eto.

Yn ogystal, er mwyn paratoi'r Pwyllgor i ddatrys anghydfodau, rhoddodd y Clerc / Swyddog Monitro weithdrefn ddrafft i'r Aelodau ar benderfynu ar wrandawiadau i'w ystyried, rhag ofn i'r mater fynd o flaen y Pwyllgor. Fe wnaeth yr Aelodau ddarllen y weithdrefn ddrafft ar gyfer penderfynu ar wrandawiadau a osodwyd o'u blaenau. Esboniodd y Clerc / Swyddog Monitro bob pwynt ymhellach a rhoddodd gyngor priodol i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau nad oes gan yr Awdurdod Tân Ddirprwy Swyddog Monitro ar hyn o bryd, ac y byddai Uwch Swyddog o'r

Gwasanaeth Tân yn cael ei benodi neu byddai trefniadau'n cael ei wneud i gyfethol o Awdurdod cyfagos, pe byddai angen.

Awgrymodd Mr Jehu bod y Pwyllgor yn cwrdd cyn i unrhyw achos fynd o flaen yr Aelodau, er mwyn darparu sesiwn friffio lawn. Cytunodd y Cadeirydd a'r Aelodau i gyd.

Awgrymodd y Clerc / Swyddog Monitro y byddai o fantais i roi sesiwn hyfforddi i'r Pwyllgor, ar y weithdrefn o gynnal gwrandawiad yn benodol.

Fe wnaeth y Clerc / Swyddog Monitro sicrhau'r Aelodau y byddai unrhyw waith papur ar gael iddynt i'w ystyried cyn gynted ag sy'n bosib, a gobeithio cyn y terfyn amser cyfreithiol o dri diwrnod clir.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol cael gwybod o flaen llaw a fydd angen y cyfleuster cyfieithu ar y pryd.

PENDERFYNIAD

***PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn mabwysiadu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar wrandawiadau*.**

8 I YSTYRIED UNRHYW EITEMAU ARALL O FUSNES Y MAE'R CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN PENDERFYNU Y DYLID EU HYSTYRIED FEL MATER O FRYS YN UNOL AG ADRAN 100(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Doedd dim eitemau o fusnes brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:15.

RHESTR GWEITHREDU – PWYLLGOR SAFONAU – 16 MEHEFIN 2014

Darperir y rhestr gweithredu ar gyfer Swyddogion ac Aelodau, er mwyn eu galluogi nhw i fod yn ymwybodol o brif weithredoedd y cyfarfod, ynghyd â cheisiadau unigol gan Aelodau'r Awdurdod Tân

Eitem ar yr Agenda	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Cynnydd
3	Y Prif Swyddog Tân i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd	
4	Y Clerc i adrodd wrth y Pwyllgor am swydd yr Ombwdsman newydd	Clerc / Swyddog Monitro	
4	IRPW- Y Clerc i adrodd am yr ymateb oddi wrth Mr Frank Cuthbert mewn perthynas â lwfansiau	Clerc / Swyddog Monitro	
5	Y Clerc i holi sut allai'r Aelodau gaffael gwybodaeth bellach am Achosion yn y Coflyfr Côd Ymddygiad.	Clerc / Swyddog Monitro	
7	Sesiwn hyfforddi i gael ei threfnu a'i darparu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau: Dyddiad i'w drefnu	Clerc / Swyddog Monitro	